PENWEDDIG

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E ymholiadau.penweddig@ceredigion.gov.uk

17.12.12

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Mae'r Adran Ddrama yn awyddus i ddisgyblion Bl.9-13 weld perfformiad Theatr Genedlaethol Cymru 'Y Bont' ar ddydd Sul y 3ydd o Chwefror 2013.

Mae'n rhan o ofynion y cwrs Drama CBAC i weld perfformiad byw, ac hefyd bydd angen i flwyddyn 12 ysgrifennu adolygiad o'r perfformiad fel rhan o'u harholiad ysgrifenedig.

Mae Bl.9 wedi bod yn astudio 'Protest Pont Trefechan' y tymor yma yn eu gwersi Drama felly mi fydd hyn yn cynnig ac yn atgyfnerthu profiadau arbennig o ran diwylliant a sgriptio.

Cânt gyfle i weld hanes yn dod yn fyw wrth iddynt ddilyn yr actorion yn ail greu protest Pont Trefechan drwy berfformio hyd strydoedd Aberystwyth.

Mae'n hanfodol i gwrdd yn nerbynfa Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 1 o'r gloch wedyn bydd bysiau a cheir yn mynd i lawr i'r dref. Bydd y perfformiad yn cychwyn yn y dref am 1.30pm.

Cofiwch wisgo dillad addas gogyfer y tywydd ac esgidiau cyfforddus!

Pris y tocyn fydd £12.

Catrin Fychan
Ar ran yr Adran Ddrama

Rwyf/Nid wyf yn caniatáu i _____ ymweld â'r Perfformiad 'Y Bont' ac fe fyddaf yn trefnu cludiant yno a chludiant adref.

Llofnod Rhiant: _____

Enw Disgybl: _____

Rhif ffôn gartref: _____